# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 2/06/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 3/06/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.** | 10/06/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC** – **Gwaredu buddiant rhydd-ddaliad rhan o'r ardd Seacroft, 12 Ffordd Mela, Pwllheli yn uniongyrchol i berchennog cyfagos.**

**PENDERFYNIAD –**

Caniatau gwaredu rhan rhydd-ddaliad y Cyngor o'r ardd Seacroft, 12 Ffordd Mela, Pwllheli yn uniongyrchol i berchennog cyfagos ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelod Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

## HYSBYSIAD PENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/aelodau o'r Cabinet: | Y Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad: | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfëwr Stadau |
| Dyddiad y penderfyniad : | 2/6/2026 |
| Llofnod Aelod/Aelodau'r Cabinet: | P. B. Rowlinson |

**Pwnc:**
Gwaredu buddiant rhydd-ddaliad rhan o'r ardd Seacroft, 12 Ffordd Mela, Pwllheli yn uniongyrchol i berchennog cyfagos.

**Argymhelliad ar gyfer y penderfyniad:**
Caniatáu gwaredu rhan rhydd-ddaliad y Cyngor o'r ardd Seacroft, 12 Ffordd Mela, Pwllheli yn uniongyrchol i berchennog cyfagos ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm pam mae angen penderfyniad:**
Er mwyn galluogi'r Cyngor i waredu'r buddiant rhydd-ddaliad mewn parsel o dir, a ddangosir mewn coch ar y plan atodedig, sy'n fwy na gofynion y Cyngor yn uniongyrchol i berchennog cyfagos.

**Rheswm a chyfiawnhad y tu ôl i'r Penderfyniad:**
Yn flaenorol, prynwyd cyn-berchennog Seacroft, 12 Ffordd Mela ran o ardd Capri, 10 Ffordd Mela, gan arwain at arwynebedd gardd anghymesur o fawr o'i gymharu ag eiddo cyfagos. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod angen gardd o'r maint hwn i gefnogi defnydd gweithredol yr eiddo ac mae'n cydnabod y gallai arwain at gostau cynnal a chadw diangen.

Mae Capri, 10 Ffordd Mela wedi cael ei werthu ers hynny, yn dilyn pryniant rhan o'i ardd gan gyn-berchnogion Seacroft, ac mae'r perchnogion presennol wedi gofyn am brynu rhan o'r tir gardd a oedd yn hanesyddol yn rhan o'u heiddo. Mae'r tir yn fwy na gofynion gweithredol y Cyngor ac ystyrir ei fod yn fwy o werth i'r perchennog cyfagos nag i unrhyw barti arall. Ar y sail hon, ystyrir ei bod yn briodol gwaredu'r tir, gyda'r gwerthiant i'w symud ymlaen am swm sydd ddim llai na gwerth y farchnad.


**Datganiadau o fuddiant personol gan unrhyw Aelod o'r Cabinet yr ymgynghorwyd â nhw ac unrhyw hepgoriadau perthnasol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau:**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y penderfyniad:**

**Pennaeth Cyllid** – Dewi Morgan – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

**Swyddog Monitro** – Iwan Evans – “Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.”

**Aelodau Lleol:**
Y Cynghorydd Hefin Underwood – "Dim gwrthwynebiadau."




# Cynllun - gwerthiant ardd gefn Seacroft

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd